



## Imiwnedd y Goron

17 Medi 2021

### Cais am wybodaeth.

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Medi, pan wnaethoch ofyn:

*A allwch roi gwybod faint o Ddeddfau'r Senedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a fyddai'n golygu bod y Goron yn mwynhau imiwnedd o'r ddeddfwriaeth.*

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Ar ôl i'r Senedd ystyried Bil a'i basio, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Senedd'. Cyhoeddir deddfau sydd wedi cael Cydsyniad Brenhinol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ar ein gwefan:

<https://senedd.cymru/archif/y-bumed-senedd-2016-2021/deddfwriaeth-y-bumed-senedd-2016-2021/>.

Yr egwyddor gyffredinol, yn seiliedig ar athrawiaeth gyfreithiol imiwnedd y Goron, yw nad yw Deddf yn rhwymo'r Goron oni bai eu bod yn gwneud hynny mewn modd pendant neu drwy ymhlygiad angenrheidiol.

Yn fwyaf cyffredin, lle y bwriedir i Ddeddf Senedd Cymru rwymo'r Goron, bydd yn cynnwys adran sy'n darparu, "*Mae'r Ddeddf hon yn rhwymo'r Goron*".

Gan fod pob Deddf yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan ac yn

<https://www.legislation.gov.uk/cy/browse/wales>, mae'n bosibl cynnal chwiliad i benderfynu pa un o'r Deddfau hynny y bwriedir iddynt rwymo'r Goron.

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

Gan fod y wybodaeth y gofynnir amdani eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir,

Buddug Saer

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth  
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN